

## **COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,**

### **8fed CHWEFOR 2022 AM 7.00 O'R GLOCH YN RHITHIOL DROS ZOOM.**

**PRESENNOL** – Dafydd Thomas (Nebo - Cadeirydd), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Erfyl Williams (Penygroes), Peter Bridges, Sian Dafydd, Gareth Jones, Harry Owen (Talysarn)

**YMDDIHEURIADAU** – Justin Davies, Dylan Herbert, Ffion Jones, OP Huws a Cyng Judith Humphreys.

Ni dderbynniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Dilwyn Lloyd a Craig ab Iago.

**2. DATGAN BUDDIANT** – nid oedd neb yn datgan buddiant.

**3. GWADD – GRUG MUSE, GwyrddNi** – Rhoddwyd croeso cynnes i Grug i'r cyfarfod gan y cadeirydd a rhoddwyd yr amser drosodd iddi hi. Diolchodd Grug am y cyfle i gael dod i siarad gyda'r cyngorwyr ac esboniodd mai mudiad yn ymwneud a newid hinsawdd ydi GwyrddNi a bydd yn mynd ymlaen am o leiaf 2 flynedd gyda gobaith y bydd yn cael ei ariannu ar ôl hyn hefyd. Esboniodd pwrpas y fenter, ac eu bod yn rhagweld mai newid hinsawdd fydd un o heriau mwyaf cymunedau am y 10 mlynedd nesaf. Esboniodd sut y bydd y fenter yn cael ei rhedeg a sut y byddent yn casglu y wybodaeth y byddent eisiau. Dywedodd y bydd cynulliad yn cael ei greu a bydd angen cofrestru diddordeb er mwyn mynd arno a bydd 50 unigolyn yn cael eu dewis i ymuno gyda'r cynulliad hwn. Rhoddwyd cyfle i bawb godi cwestiynau. Holodd Dafydd pryd yr oeddynt yn meddwl cynnal y nosweithiau cynulliad dan sylw a dywedodd Grug y gobaith yw eu cynnal yn mis Mehefin. Gofynwyd iddi yrru yr holl fanylion drosodd i'r clerc gael ei rannu gyda pawb a diolchwyd iddi am ei hamser heno.

**4. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 11 IONAWR 2022** – cynnigiodd Erfyl ac eiliodd Barry fod y cofnodion yn gywir a cytunodd pawb.

### **5. MATERION YN CODI O'R CYN GOFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD** –

**TROSGLWYDDO ASED** – yn dilyn o'r cyfarfod diwethaf lle penderfynwyd i gymerud yr ased (sef y murlun ar y palmant ger y safle bws) roedd y clerc wedi derbyn ffurflen a oedd angen i'r cadeirydd arwyddo i gytuno i'r trosglwyddiad. Nia am gyfarfod gyda Dafydd er mwyn iddo arwyddo y ffurflen.

**6. MATERION PENTREFI** – LLANLLYFNI – y clerc i gysylltu unwaith eto gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r problem baw ci a gofyn eto os ddaw warden draw i'r pentrefi gan fod yn broblem ymhob man. Angen hefyd cysylltu gyda'r cyngor i ofyn pryd fydd 'sweeper' yn dod o gwmpas i lanhau y strydoedd. PENYGroes – twll arall wedi ymddangos wrth Corwen House a angen sylw. Cwtin heb ei dorri ac angen gwybod pryd y bydd y gwaith yn cael ei wneud. Y parcio ar y stryd dal yn peri gofid ac yn beryglus. Ffordd Llwyndy – y tyllau ar pantiau yn gwaethygu yn y ffordd. TALYSARN – cerrig yn cael eu llechio oddi ar y wal ger Bro Sillyn i'r cae. Arwydd '30' wrth ddod fewn i'r pentref o gyfeiriad Penygroes dal heb gael ei newid ac mae yn gwaethygu erbyn hyn. Y ffens ar y llwybr rhwng Talysarn a Penygroes wedi pydru ac angen ar hatgyweirio. NEBO – tyllau yn y ffyrdd yn gwaethygu ac angen sylw brys. Y clerc i gysylltu gyda'r adranau pwrpasol am y pwyntiau yma.

**7. CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU** – IS-BWYLLGOR CYLLID, 2il CHWEFOR 2022 – Adroddodd Dafydd beth oedd wedi ei drafod yn yr is-bwyllgor hwn ac roedd pawb wedi cael copi o'r cofnodion ymlaen llaw i edrych drostynt. Diolchwyd i Gareth am ei waith yn edrych drs y gyllideb ers hyn i ailwampio cyllideb 2022/23. Trafodwyd os oedd posibilrwydd medru cyllidebu Clwb Ieuenctid ac yn dilyn ail-edrych ar y gyllideb a gweld faint o arian fydd yna ar gyfer hyn, os am fynd ymlaen gydag o.

Adroddodd Harry Owen bod yn rhaid cofio mewn ychydig flynyddodd y bydd angen cysidro prynu rhagor o dir ar gyfer mynwent Gorffwysfa Llanllyfni ac awgrymodd Gwyndaf efallai y buasai yn syniad dechrau cynilo arian ar gyfer hyn o beth sydd ar ôl. Cynnigiodd Gwyndaf i gario ymlaen gyda'r gyllideb ddrafft fel y mae Gareth wedi gweithio arno, eiliodd Barry a Peter hyn a cytunodd pawb yn unfrydol.

**8. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID** – pawb wedi derbyn copi o'r gyllid cyn y cyfarfod i edrych drosti. Cynnigiodd Dafydd y bydd yn rhaid edrych ar bryniant tir ar gyfer Mynwent Gorffwysfa Llanllyfni y flwyddyn nesaf. Gwelir nawr fod taliadau yn cael eu gwneud i'r banc yn fisol am ddefnyddio'r cyfrif a teimlai Gareth fod hyn yn lawer o gostau yn flynyddol gan fod dau gyfrif banc gan y Cyngor Cymuned. Y taliadau hyn am fod sieciau yn cael eu gwneud a hefyd am sieciau sydd yn cael eu talu fewn i'r cyfrifon. Dafydd yn cynnig y dylid codi y swm dyddiol sydd yn cael ei dalu allan o'r cyfrifon o £2000 i £4000, eiliodd Sian hyn a chytunodd pawb. Hefyd efallai yn syniad edrych i fewn i wneud y ddau gyfrif yn un er mwyn arbed arian. Angen hefyd edrych ar y rheoliadau ariannol a'u newid i gyd fynd gyda'r newidiadau hyn. Gofynnwyd i Sian os y buasai yn fodlon edrych dros y rheoliadau sydd yn bodoli ac awgrymu newidiadau – cytunodd Sian i edrych drostynt, y clerc i ebostio y rheoliadau iddi.

**9. LLWYBRAU A MYNWENTYDD** – adroddodd Dafydd mai un tendr oedd wedi ei dderbyn ac adroddodd beth oedd ar y dendr ar pris ayyb. Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn y pris hwn ond pwysleiswyd y bydd angen cyfarfod gyda'r contractwyr yn fuan er mwyn trafod popeth a gwneud yn siwr eu bod yn deallt pwysigrwydd fod y Cyngor Cymuned yn cael anfonebau rheolaidd ganddynt a hefyd y ffurflenni pwrpasol yn dweud pa waith sydd wedi ei gario allan a pryd. Penderfynwyd i gynnig cyfarfod gyda nhw dydd Sadwrn yma (12fed Chwefror) yng Nghanolfan Talysarn i drafod popeth. Y clerc i drefnu hyn a gadel i pawb wybod.

**10. CLWB IEUENCTID** – cynhaliwyd cyfarfod rhithiol ar 1af Chwefror i drafod y clwb hwn ac adroddodd Dafydd ar beth a drafodwyd. Soniwyd am syniad Cyngor Gwynedd i beilota prosiect o redeg clwb o cabana r leoliad ym Mhenygroes. Esboniodd Peter mai Cyngor Gwynedd fuasai yn ariannu gosod y caban ayyb ac yna y Cyngor Cymuned i ariannu staffio y prosiect. Gan fod y Cyngor Cymuned yn gwybod bod arian nawr ar gael ar gyfer hyn Peter yn gryf o'r farn bod yn bwysig cefnogi y bobl ifanc a hyn yw'r ffordd o wneud hynny. Cytunodd Erfyl gyda hyn. Safle ar gyfer y caban yw'r broblem ar y funud ond mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod ambell safle a allai fod yn iawn ar gyfer hyn. Holwyd lle – Maes parcio Grŵp Cynefin neu rhan o'r Ganolfan Les newydd sydd dan sylw ar hyn o bryd ond dal i edrych am lefydd eraill. Adroddwyd os y buasai pawb yn cytuno yna £6000 (sef 20 sesiwn) fuasai modd i'r Cyngor Cymuned roi am y flwyddyn ariannol 2022/23 ond gall hyn newid pan yn gwybod sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yma. Trafodwyd a cytunwyd i gynnal cyfarfod arall gyda Judith Humphreys a Sion Bryn Roberts i roi y sylwadau a drafodwyd drosodd a cael symud pethau ymlaen gobeithio. Holodd Gareth os y buasai y caban yn cael ei roi ar safle Cynefin yna beth fuasai yn digwydd pan mae'r gwaith ar y Ganolfan Les yn dechrau? Erfyl yn meddwl ma mwyaf tebyg y bydd y caban yn un a fuasai yn bosibl ei symud. Cafwyd cynnig llawn unfrydol i gael cyfarfod pellach gyda Judith a Bryn er mwyn symud pethau ymlaen.

**11. ADRODDIAD GAN Y CYNGHORWYR SIR** – roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Judith ymlaen llaw, ond yn ei absenoldeb nid oedd dim yn codi o'r adroddiad. Dioclwyd iddi am ei baratoi ac am ei gwaith.

**12. DIWEDDARIAD PARC SGLEFRIO A TRAC BMX TALYSARN** – pawb wedi derbyn ymateb Rhian George ers y drafodaeth ddiwethaf a Gareth yn bryderus fod y cyfrifoldeb i gyd am ddisgyn ar y

Cyngor Cymuned ac o edrych ar bethau ofni bod costau am ddisgyn arnynt hefyd, ac a oes arian ar gael os y buasai hyn yn digwydd? Esboniodd Sian mai heb ymateb gan y Cyngor Cymuned yna nid oes modd symud ymlaen a heb i'r Cyngor Cymuned gymerud y brydles yna grwpiau gwirfoddol yn methu mynd am grantiau i gario ymlaen. Mae modd ail-wampio y rheolau os fydd pethau ddim i weld yn iawn esboniodd Sian. Cynnigiodd Barry y dylai y cadeirydd rhoi hyn i bleidlais os am gymerud y brydles, gan fel yr eglurwyd cynt nid oes modd cario ymlaen er mwyn cael gwybod be ydi be ar hyn o bryd. Pleidleiswyd i gymerud y brydles drosodd. Cymerwyd y cyfle yma i son am y llythyr a oedd wedi ei dderbyn gan Gadeirydd Bwyllgor CPD Talysarn Celts, ac roedd pawb wedi derbyn copi ohono ymlaen llaw i edrych drosto. Cynnigiodd Dafydd y dylid cynnal is-bwyllgor gyda'r clwb i drafod hyn ymhellach, cytunwyd. Clerc i gysylltu gyda'r clwb i drefnu dyddiad ac amser.

**13. CAE DOLBEBI, TALYSARN** – esboniodd Dafydd fod y clerch wedi cael y dogfenau yn ymwneud a hyn a'i fod o wedi edrych drostynt er mwyn cael gweld be ydi be. Gofynnodd os y buasai Sian yn fodlon edrych drostynt hefyd a rhoi ei barn cyn cysylltu gyda'r cyfreithwyr. Y clerch i ymateb yn nôl i Jill Williams i ddweud hyn a bod y cyngor cymuned yn edrych i wneud yn siwr fod popeth yn ei le yn iawn.

**14. CYFARFOD WYNEB YN WYNEB** – Harry Owen wedi holi ac mae yna wifi yn y Ganolfan yn Talysarn a fuasai yn galluogi medru cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ond hefyd rhoi linc zoom i'r rhai sydd ddim yn teimlo yn gartrefol yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Pendrefynwyd gwneud hyn yn y cyfarfod nesaf ar 8fed Mawrth.

**15. CEISIADAU CYNLLUNIO** - C22/0038/22/LL – Fferm Taldrwst, Lôn Ddŵr, Llanllyfni – Ymestyn trac dan gyfeirnod cais C21/1155/22/YA – nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cais hwn.

Ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio – Lock up self storage, Penygroes Industrial Estate – nid oedd dim sylw nac gwrthwynebiad i'r cais hwn.

**16. GOHEBIAETH** – cafodd pawb gyfle i weld y gohebiaeth a rhoi sylw – ond nid oedd dim yn codi ohonynt.

- PCSO Aled Hughes – Safle Bws Co-op Penygroes
- Ian Morgan, Cyngor Gwynedd – Biniau Halen Ardal Arfon
- Cyngor Cymuned Llandegai – Ymateb Dafydd Gibbard i'r Diffyg Ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd
- Cyngor Tref Nefyn – Ymgynghoriad hollbwysig ar ail dai a chymunedau Cymraeg
- Rhian George – Cronfa Ariannol Cymunedau Mentrus
- Rhian George – Ardal NI 2035 – Canlyniad Ymatebion Cyngorau Cymuned

**17. MATERION ARIANNOL** – cytunwyd i dalu popeth yma

- Llew – Hysbyseb Tendr gwaith ffensio Macpela = **£17.00**
- Llew – Hysbyseb am geisiadau cymorth ariannol = **£17.00**
- Idris ac Ifan – Torri llwybrau a mynwentydd = £9025 + 1805 TAW = **£10830.00**
- Nick Cranham – gwaredu coed celyn Mynwent Sant Rhedyw = £1190+238 TAW = **£1428.00**
- Nia Jones - **£25.00** Ffôn a rhyngwyd Ionawr 2022
- Nia Jones - **£14.39** Zoom Ionawr 2022